

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) a (Coronafeirws) (Dirymu) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) a (Coronafeirws) (Dirymu) 2022. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie Morgan

**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
27 Medi 2022**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

- 1.1. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) a (Coronafeirws) (Dirymu) 2022* ("y Rheoliadau Dirymu Coronafeirws")
- 1.2. Yn gyntaf, diben y Rheoliadau Dirymu Coronafeirws yw dirymu'r diwygiadau dros dro sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed i ofynion ar ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaethau cymorth cartref i oedolion, drwy *Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020<sup>1</sup>* ("Rheoliadau 2020"). Nod y diwygiadau hyn oedd cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol brys i oedolion, lle'r oedd angen hyn o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, a symleiddio'r gwiriadau cyn cyflogi sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr preswyl a gofal cartref newydd, mewn sefyllfaoedd lle'r oedd yn anodd cael gafael ar y wybodaeth hon.
- 1.3. Yn ail, mae'r Rheoliadau Dirymu Coronafeirws hefyd yn egluro'r disgrifiad o fangreodded 'Categori C' o fewn rheoliad 49 o *Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017<sup>2</sup>* ("y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig"). Bwriad hyn yw sicrhau bod gofynion ychwanegol mewn perthynas â mangreodded newydd yn gymwys os oedd y fangre wedi'i chynnwys o fewn cofrestrriad darparwr blaenorol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<sup>3</sup> ("Deddf 2016") neu a oedd yn gyfystyr â mangreodded neu sefydliadau perthnasol yr oedd person wedi'i gofrestru yn gysylltiedig â hwy o dan unrhyw Ddeddf berthnasol a oedd yn darparu rheolaeth a goruchwyliaeth reoleiddiol o'r fath yn flaenorol.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1. Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1. Mae'r pwerau sy'n galluogi'r Rheoliadau Dirymu Coronafeirws i gael eu gwneud wedi'u cynnwys yn adrannau 2(3), 27(1) a 187 (1)(b) o Ddeddf 2016. Mae rhagor o fanylion ar gael isod:

---

<sup>1</sup> <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/570/made>

<sup>2</sup> <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1264/contents/made>

<sup>3</sup> <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents>

- 3.2. Mae adran 2(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, mewn rheoliadau, bethau nad ydynt i'w trin fel gwasanaeth rheoleiddiedig at ddibenion Deddf 2016.
- 3.3. Mae adran 27 (1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod gofynion, mewn rheoliadau, ar ddarparwr gwasanaeth mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir ganddynt. Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn nodi'r gofynion ar ddarparwyr yn fanylach. Mae adran 187(1)(b) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2016, sy'n gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, ar gyfer achosion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol.
- 3.4. Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Os cânt eu cymeradwyo gan y Senedd yna cânt eu gwneud gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a byddant yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2022.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

- 4.1. Mae'r Rheoliadau Dirymu Coronafeirws yn dirymu'r newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, drwy Reoliadau 2020, gan ddefnyddio pwerau o fewn Deddf 2016, fel a ganlyn:

##### **Adran 2(3) - Eithriadau**

- 4.2. Diben diwygio Rhan 2 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, o dan adran 2(3) o Ddeddf 2016, drwy Reoliadau 2020, oedd sicrhau nad oedd rhai mathau o wasanaeth am gael eu trin fel "gwasanaethau rheoleiddiedig" at ddiben ymateb i bandemig Covid-19. Fel y cyfryw, o dan amgylchiadau penodedig, ni fyddai'n ofynnol i'r gwasanaethau hyn gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, na chael eu rheoleiddio ganddi, fel cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref.
- 4.3. Galluogodd hyn i wasanaethau gofal a chymorth newydd o'r mathau a bennir yn Rheoliadau 2020 gael eu sefydlu'n gyflym, os oedd angen hynny o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, er mwyn ymateb i bwysau a ragwelid ar ysbytai, cartrefi gofal (sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion) a gwasanaethau cymorth cartref i oedolion.
- 4.4. Mae'r Rheoliadau Dirymu Coronafeirws yn dileu'r eithriad rhag dod o fewn cwmpas gwasanaethau cartrefi gofal (rheoliad 4) a'r eithriad rhag dod o fewn cwmpas gwasanaethau cartref (rheoliad 5), gan adfer testun gwreiddiol y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

##### **Adran 27(1) – Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau**

### *Addasrwydd staff*

- 4.5. Diben diwygio rheoliad 35 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, drwy Rheoliadau 2020, oedd llacio'r gofynion penodedig ar ddarparwyr gwasanaethau i gynnal gwiriadau cyn cyflogi penodol ar weithwyr mewn gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaethau cymorth cartref a ddarperir ar gyfer oedolion. Nod y diwygiadau hyn oedd cefnogi mesurau a gymerir i fynd i'r afael â'r angen a ragwelir am ragor o weithwyr neu i ganiatáu i ni lenwi swyddi gwag yn ystod yr achosion o Covid-19.
- 4.6. Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau Dirymu Coronafeirws yn adfer y gofynion gwreiddiol ar gyfer gwiriadau cyn cyflogi o fewn y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

### *Ystafelloedd a rennir*

- 4.7. Diben diwygio rheoliad 45 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, drwy Rheoliadau 2020, oedd llacio'r amodau sy'n cyfyngu ar nifer yr oedolion y gellir eu lletya mewn ystafelloedd a rennir mewn cartrefi gofal ar gyfer oedolion. Roedd hyn yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal amrywio eu cofrestriad i fod yn fwy na 15% o gyfanswm yr oedolion sy'n cael eu lletya gan y gwasanaeth mewn ystafelloedd a rennir, lle roedd angen darparu llety oherwydd lledaeniad y coronafeirws.
- 4.8. Mae rheoliad 7 o'r Rheoliadau Dirymu Coronafeirws yn adfer y gofynion gwreiddiol o fewn y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

### **Mangreoedd 'Categori C'**

- 4.9. Diben diwygio rheoliad 49 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yw egluro'r disgrifiad o fangreoedd 'Categori C. Mae Rhan 12 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn gosod gofynion cyffredinol ynghylch safonau ffisegol ystafelloedd a chyfleusterau ar gyfer yr holl wasanaethau sy'n seiliedig ar lety, megis sicrhau eu bod yn hygyrch, o faint digonol ac yn cael eu cynnal yn briodol.
- 4.10. Mae Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn nodi gofynion ychwanegol ynghylch safonau ffisegol ystafelloedd a chyfleusterau ar gyfer gwasanaethau newydd sy'n seiliedig ar lety, (fel y gofyniad i gael ystafelloedd ymolchi en-suite) ar gyfer tri chategori o "fangreoedd newydd". Nodir y categorïau hyn yn adrannau 4.11 i 4.13 isod.
- 4.11. Categori A: Mae'r mangreoedd a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn adeilad newydd neu adeilad presennol sydd wedi

cael ei addasu at ddiben darparu'r gwasanaeth, ac, yn y naill achos neu'r llall, nid yw'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen at ddiben darparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar lety. Mae Categori A yn gymwys i adeiladau newydd a/neu fangreoedd sydd wedi'u haddasu

- 4.12. Categori B: Mae'r mangreoedd yn cynnwys [adeilad neu adeiladau y mae estyniad yn cael ei ychwanegu ato/atynt ac mae'r estyniad] yn cael ei ddefnyddio at ddibenion darparu'r gwasanaeth mewn man a bennir fel amod i gofrestrriad y darparwr gwasanaeth. Mae Categori B yn gymwys i estyniad i fangre bresennol lle darperir gwasanaeth sy'n seiliedig ar lety.
- 4.13. Categori C: Mae'r fangre yn cynnwys adeilad a oedd heb ei feddiannu yn union cyn cofrestrriad y darparwr gwasanaeth ond a oedd yn cael ei ddefnyddio o'r blaen at ddiben darparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar lety mewn man a bennir fel amod i gofrestrriad darparwr gwasanaeth arall. Mae 'Categori C' yn gymwys i fangreoedd sydd heb eu meddiannu a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer darparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar lety (gan ddarparwr gwasanaeth arall) sydd wedi'u prynu/eu caffael i'w defnyddio gan y darparwr gwasanaeth.
- 4.14. Diben Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig oedd sicrhau gwelliant yn yr ystad adeiledig dros amser ond heb ansefydlogi'r farchnad. Felly, nid yw'r gofynion ychwanegol ar gyfer mangreoedd newydd yn gymwys i wasanaethau sydd eisoes wedi'u meddiannu nac mewn sefyllfaoedd lle mae darparwyr gwasanaethau wedi gadael y fangre dros dro at ddibenion adnewyddu. (Nid yw gofynion Rhan 13 yn gymwys os yw'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety i bedwar neu lai o bobl).
- 4.15. Bwriad 'Categori C' oedd cofnodi mangreoedd heb eu meddiannu nad oeddent yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig yn union cyn cofrestrriad darparwr gwasanaeth o dan Ddeddf 2016, ond a ddefnyddiwyd yn flaenorol at y diben hwnnw rywbryd yn y gorffennol, gan ddarparwr arall. Y bwriad oedd y dylai hyn fod yn gymwys p'un a oedd y fangre wedi'i chynnwys mewn cofrestrriad darparwr blaenorol o dan Ddeddf 2016 neu wedi'i chofrestru o dan unrhyw Ddeddf berthnasol a oedd yn arfer darparu rheolaeth a goruchwyliaeth reoleiddiol o'r fath.
- 4.16. Fodd bynnag, mae geiriad rheoliad 49(2) wrth ddisgrifio 'Categori C' yn cael yr effaith anfwriadol o eithrio mangreoedd heb eu meddiannu os yw eu cyfnod cynharach o ddefnyddio wedi'i ddyddio cyn i rannau perthnasol o Ddeddf 2016 gychwyn ym mis Ebrill 2018. Y canlyniad yw nad yw cartrefi gofal segur na mangreoedd perthnasol eraill, sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (neu ddeddfwriaeth gynharach a ddisodlodd y Ddeddf honno) ac sydd heb eu cynnwys yng nghofrestrriad darparwr gwasanaeth o dan Ddeddf 2016, yn ddarostyngedig i'r gofynion mangreoedd ychwanegol yn

Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Mae hyn yn ganlyniad cwbl anfwriadol i'r geiriad presennol, sy'n tanseilio bwriad y polisi o sicrhau gwelliant yn ansawdd yr ystad adeiledig dros amser.

- 4.17. Bydd diwygio'r disgrifiad o fangreoedd 'Categori C' drwy'r Rheoliadau Dirymu Coronafeirws yn sicrhau eglurder a sicrwydd o ran rheoliad 49 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, felly mae'r sefyllfa'n cael ei rhoi y tu hwnt i amheuaeth: bwriedir i fangreoedd 'Categori C' gynnwys mangreoedd a sefydliadau perthnasol yr oedd unigolyn wedi'i gofrestru ar eu cyfer o dan unrhyw Ddeddf berthnasol, gan felly sicrhau bwriad gwreiddiol y polisi o sicrhau gwelliant yn ansawdd yr ystad adeiledig dros amser, heb ansefydlogi'r farchnad.

## 5. Ymgynghori

- 5.1. Rhwng 20 Mai a 18 Gorffennaf 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus<sup>4</sup> ar gynigion i ddirymu Rheoliadau 2020 ac i egluro'r disgrifiad o fangreoedd 'Categori C' o fewn rheoliad 49 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig
- 5.2. Cafwyd cyfanswm o 35 o ymatebion. Roedd yn well gan y rhan fwyaf o ymatebwyr (21) aros yn ddiennw, tra nododd eraill eu bod yn ymateb ar ran sefydliadau fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Fforwm Gofal Cymru, Unsain, Tîm Partneriaeth Ranbarthol Gwent a Chyngor Sir y Fflint. Cafwyd rhai ymatebion gan ddarparu gwasanaethau - naill ai gwasanaethau cartrefi gofal neu wasanaethau cymorth cartref - yn ogystal â nifer fach gan unigolion.
- 5.3. Dangosodd dadansoddiad o'r ymatebion gefnogaeth glir i ddirymu'r newidiadau a wnaed drwy Rheoliadau 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd y bydd y sefyllfa iechyd cyhoeddus yn cael ei hadolygu'n barhaus a bydd, wrth ymgynghori â rhanddeiliaid, yn ystyried yn gyson a fydd angen rhagor o ymatebion deddfwriaethol yn y dyfodol.
- 5.4. Gwnaeth 12 o ymatebwyr sylwadau ar gynig 'Categori C', a arweiniodd at gymysgedd o ymatebion. Mynegodd pum ymatebydd gefnogaeth glir i'r eglurhad a phwysigrwydd buddsoddi yn ansawdd mangreoedd cartrefi gofal, tra bod rhai wedi mynegi pryderon cyffredinol am y costau dan sylw a'r effaith bosibl ar eu busnesau.
- 5.5. Mae adran 27(4) o Ddeddf 2016 yn darparu "Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru – (a) ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy, a (b) cyhoeddi datganiad ynghylch yr ymgynghoriad." I gyflawni'r gofyniad hwn,

---

<sup>4</sup> <https://llyw.cymru/newidiadau-ir-gofynion-ar-ddarparu-rhai-gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-rheoleiddiedig>

cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru, yn:

<https://llyw.cymru/newidiadau-ir-gofynion-ar-ddarparwyr-rhai-gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-rheoleiddiedig>

- 5.6. Yn ogystal, mae adran 27(5) o Ddeddf 2016 yn darparu “Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o ddatganiad a gyhoeddir o dan is-adran (4)(b) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru”. Felly, gellir gweld copi o grynodeb o'r ymatebion yn:

<https://senedd.cymru/chwilio/?SiteHomePagelD=0&Culture=en>

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

1. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal mewn perthynas â rheoliadau 2 i 7 na rheoliad 10 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) a (Coronafeirws) (Dirymu) 2022 ("y Rheoliadau Dirymu Coronafeirws"), gan fod rhain ond yn gweithredu i ddirymu'r diwygiadau dros dro sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wneir drwy Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Mae'r diwygiadau a wneir drwy Reoliadau 2020 ond yn gymwys i rai gwasanaethau o dan amgylchiadau rhagnodedig, lle bo eu hangen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws – mae'r holl ofynion eraill o fewn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) Cymru 2017 ("y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig") yn parhau i fod ar waith. Felly, ni ddisgwylir y caiff dirymu Rheoliadau 2020 drwy'r Rheoliadau Dirymu Coronafeirws, gan adfer y status quo, unrhyw effeithiau cyffredinol na goblygiadau newydd o ran cost.
2. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn 2017 ar gyfer y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, pan gyflwynwyd y gofyniad 'Categori C' am y tro cyntaf. Gellir gweld yr RIA llawn [yma](#). Cafodd yr asesiad a wnaed yn 2017 ei lywio drwy waith ymgysylltu helaeth â'r sector, gan gynnwys busnesau arbenigol sy'n gwerthu cartrefi gofal yng Nghymru, ynghyd â chymharu â pholisïau cysylltiedig Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.
3. Wrth i'r Rheoliadau Dirymu Coronafeirws ddiwygio'r diffiniad o fangreoedd Categori C er mwyn cyflawni bwriad gwreiddiol y polisi, cynhaliwyd RIA pellach yma i ystyried y costau, y buddion, a'r risgiau o wneud hynny o fewn yr hinsawdd bresennol. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gall y sector gofal cymdeithasol fod wedi newid yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, yn enwedig wrth i'r sector adfer o'r pandemig, yn ogystal â chynlluniau a mentrau perthnasol eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2017.
4. Er bod y diwygiad i'r disgrifiad o fangreoedd Categori C, a wnaed o fewn rheoliad 8 o'r Rheoliadau Dirymu Coronafeirws yn ymwneud â'r holl wasanaethau sy'n seiliedig ar lety (cartrefi gofal, llety diogel ar gyfer plant a chanolfannau preswyl i deuluoedd), rydym wedi defnyddio'r term "cartref gofal" drwy gydol y ddogfen hon, ar gyfer symlrwydd.
5. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried wrth ddadansoddi'r costau, y manteision a'r risgiau mewn perthynas â'r mater o fangreoedd Categori C o fewn rheoliad 49 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

### Yr opsiynau yw:

- **Opsiwn un:** Peidio â gwneud dim – peidio â gwneud rheoliadau diwygio newydd i egluro'r diffiniad o fangreoedd Categori C.



- **Opsiwn dau:** Gwneud rheoliadau diwygio newydd i egluro'r diffiniad o fangreoedd Categori C yn rheoliad 49 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

## **Opsiwn un: Gwneud dim**

### Costau

6. Nid ydym yn credu y bydd unrhyw gostau ychwanegol mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

### Risgiau

7. Trwy beidio â diwygio'r diffiniad o fangre Categori C, bydd darparwyr yn gallu osgoi bwriad polisi'r rheoliad presennol. Mae un achos o'r fath eisoes wedi codi. Byddai hyn yn golygu bod darparwyr yn gallu cofrestru cartrefi gofal gwag, a oedd wedi'u cofrestru'n flaenorol, heb orfod gwneud y gwelliannau angenrheidiol i'r fangre, fel gosod ystafelloedd ymolchi en-suite ym mhob ystafell wely, gosod lifft (o dan amgylchiadau penodol) a sicrhau ardal awyr agored hygyrch.
8. Felly, ni fyddai'r bobl sy'n symud i'r cartrefi hyn yn profi'r safonau y mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn eu disgwyl gan gartrefi gofal modern, a byddai'n arwain at welliannau arafach yn yr ystad adeiledig dros amser.

### Manteision

9. Drwy ganiatáu i ddarparwyr gofrestru mangreoedd gwag, a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel cartrefi gofal gan ddarparwr gwahanol o dan ddeddfwriaeth bresennol neu flaenorol, heb orfod gwneud buddsoddiad yn y fangre a allai fod yn gostus er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, gellid denu mwy o wasanaethau cartrefi gofal i weithredu a chynyddu nifer y gwelyau sydd ar gael i bobl sydd angen gofal a chymorth. Gallai hyn helpu i greu capasiti ychwanegol yn y sector gofal cymdeithasol wrth i'r galw am gartrefi gofal â nyrsio barhau i gynyddu.
10. Mae'n wybyddus y bydd y galw am lety â nyrsio yn parhau i gynyddu. Yn ôl adroddiad y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai ar ran Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, [Asesiad o'r galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru](#), rhagwelir y bydd diffyg gwelyau gofal preswyl a gwelyau nyrsio yng Nghymru, fel a ganlyn:

#### Erbyn 2025

- Diffyg o 249 o welyau gofal preswyl
- Diffyg o 3562 o welyau nyrsio

#### Erbyn 2030

- Diffyg o 279 o welyau gofal preswyl
- Diffyg o 5296 o welyau nyrsio

11. Nid yw hyn yn beth newydd, ac mae cynlluniau a chyllid wedi'u hen sefydlu i annog datblygiad modelau iechyd a gofal cymdeithasol newydd ac i wella'r gofal sy'n cael ei roi i bobl gartref i oedi'r angen am wasanaethau sy'n seiliedig ar lety. Mae hyn wedi'i nodi yn y strategaeth [Cymru Iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol](#).
12. Fe wnaeth pandemig COVID-19 hefyd gynyddu'r sylw ar gapasiti cartrefi gofal, wrth iddo ddod yn bwysicach nag erioed i gleifion mewn ysbytai, a oedd yn barod i gael eu rhyddhau ond a oedd angen gofal a chymorth parhaus, i symud i leoliadau gofal yn gyflym er mwyn rhyddhau gwelyau mewn ysbytai.
13. Rhoddodd Llywodraeth Cymru y gallu i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sefydlu capasiti brys ychwanegol fel rhan o'r ymateb i'r pandemig drwy gyfrwng Rheoliadau 2020 drwy ddarparu na ddylid trin rhai gwasanaethau penodol fel gwasanaethau rheoleiddiedig at ddibenion ymateb i bandemig Covid-19. Nid yw'r capasiti brys hwn – a oedd ei angen o ganlyniad i ledaeniad coronafeirws yn unig - yn ofynnol bellach a dyna pam mae Rheoliadau 2020 yn cael eu dirymu.
14. O ystyried bod y galw am wasanaethau gofal wedi cael sylw - ac yn cael sylw - mewn ffyrdd eraill, ni fyddai'n briodol caniatáu i ddarparwyr osgoi'r gofynion o fewn Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig fel modd o greu capasiti ychwanegol yn y sector.
15. Yn wir, mae'n debygol y bydd unrhyw gapasiti ychwanegol y gellir ei greu drwy'r dull hwn yn fach iawn. I roi cipolwg ar y farchnad cartrefi gofal, ar un diwrnod ym mis Awst 2022, roedd 20 o gartrefi gofal wedi'u rhestru ar werth yng Nghymru gan Christie and Co, un o'r prif fusnesau sy'n gwerthu cartrefi gofal.
16. Cafodd chwech o'r 20 eiddo eu hysbysebu fel rhai a oedd eisoes â chyfleusterau en-suite ym mhob un neu yn rhai o'r ystafelloedd gwely. Rhestrwyd naw eiddo fel rhai dan reolaeth, sy'n awgrymu bod y cartrefi'n dal i gael eu meddiannu ac felly ni fyddent yn dod o fewn categorïau A neu C. Ymddengys nad oedd gan naw eiddo gyfleusterau en-suite ac nad oeddent dan reolaeth, sy'n awgrymu y byddent yn dod o dan ddisgrifiad Categori C. Felly byddai angen cydymffurfio â'r gofynion ychwanegol a nodwyd yn Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, pe bai'r diwygiad yn cael ei wneud drwy'r Rheoliadau Dirymu Coronafeirws.
17. Byddai galluogi darparwyr i gofrestru'r cartrefi hyn heb ei gwneud yn ofynnol iddynt addasu mangreoedd yn unol â'r gofynion o fewn Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn dileu un o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag mynd i mewn i'r sector. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae nifer y cartrefi gofal y byddai hyn yn berthnasol iddynt yn fach iawn (tua naw

cartref) ac mae'n annhebygol o wneud gwahaniaeth sylweddol i'r capasiti cyffredinol yn y sector.

18. Mae'n werth datgan hefyd bod y galw am gartrefi gofal gyda nyrsio yn fwy cymhleth na diffyg gwelyau yn unig. Mae'n rhaid asesu anghenion pobl yn ofalus, ac mae angen i wasanaethau allu diwallu'r anghenion hynny. Yn y tymor hir, ni fyddem yn cefnogi cynnydd bach mewn capasiti ar draul safonau cartrefi gofal.

### **Opsiwn dau: Gwneud Rheoliadau diwygio newydd**

#### Costau

19. Nodwyd y bydd costau ychwanegol posibl ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n bwriadu prynu ac ail-gofrestru cartref gofal a gofrestrwyd yn flaenorol, ac nad yw'n cael ei feddiannu ar adeg gwerthu, neu ddarparwyr sy'n bwriadu gwerthu cartref gofal presennol, gwag i ddarparwr newydd (mangre 'Categori C).
20. Er bod rhaid i bob gwasanaeth cartref gofal fodloni gofynion craidd sy'n ymwneud ag amgylchedd ffisegol eu cartref (a nodir yn Rhan 12 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig), rhaid i mangreoedd sy'n perthyn i Gategori A, B neu C fodloni gofynion ychwanegol yn ogystal (a nodir yn Rhan 13). Nodir y gofynion ychwanegol hyn, fel a ganlyn:

#### *Maint yr ystafelloedd*

21. Rhaid i bob ystafell wely a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth fod ag o leiaf 12 metr sgwâr o ofod llawr y gellir ei ddefnyddio. Os yw'r person yn yr ystafell yn defnyddio cadair olwyn yn barhaol a chyson oherwydd natur ei anabledd, rhaid i'r ystafell fod ag o leiaf 13.5 metr sgwâr o ofod llawr y gellir ei ddefnyddio. Os caiff yr ystafell wely ei rhannu, rhaid bod o leiaf 16 metr sgwâr o ofod llawr y gellir ei ddefnyddio (mae'r safonau hyn yr un fath â'r rhai a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol o dan y ddeddfwriaeth flaenorol, Deddf Safonau Gofal 2000)

#### *En-suite*

22. Rhaid i bob ystafell wely a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth gael ystafell ymolchi en-suite sy'n cynnwys basn golchi dwylo, toiled a chawod hygrych.

#### *Gofod cymunedol*

23. Rhaid i arwynebedd y gofod eistedd, hamdden a bwyta sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer darparu'r gwasanaeth fod o leiaf 4.1 metr sgwâr ar gyfer pob unigolyn a 5.1 metr sgwâr ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn (mae'r safonau hyn yr un fath â'r rhai a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol o dan y ddeddfwriaeth flaenorol, Deddf Safonau Gofal 2000).

### Gofod awyr agored

24. Rhaid i'r ardal allanol a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth fod yn hygyrch i unigolion mewn cadeiriau olwyn neu i unigolion â phroblemau symudedd eraill. Rhaid sicrhau seddi digonol ac addas, a rhaid i'r ardal fod wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion pob unigolyn gan gynnwys y rhai sydd â nam corfforol, nam ar y synhwyrau a nam gwybyddol.

### Liffiau

25. Pan fo'r llety a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth ar fwy nag un llawr a bod hyn yn gyson â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth, rhaid i lifft i fod ar gael.
26. O ran amcangyfrif y gost i ddarparwyr mewn perthynas â mangreoedd Categori C, mae'n bwysig asesu'r stoc cartrefi gofal presennol yng Nghymru i nodi'r mathau o fangreoedd a fyddai o bosibl yn dod ar y farchnad fel mangre wag yn y dyfodol. Mae llawer o'r stoc presennol o gartrefi gofal yng Nghymru'n cynnwys adeiladau dros 50 oed nad ydynt yn debygol o fodloni'r gofynion ar gyfer mangreoedd o dan yr opsiwn hwn.
27. Ym mis Ionawr 2017, cafodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGGCC gynt) wybodaeth o ddatganiadau hunanasesu gwasanaeth (SASS) y darparwyr am ystod o faterion, gan gynnwys oedran adeiladau cartrefi gofal a nifer yr ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau en-suite. Mae'r wybodaeth i'w gweld yn y tablau isod:

### Oedran bras y prif adeiladau

Math o wasanaeth		Cartrefi Gofal i Oedolion – Hŷn	Cartrefi Plant
Cyfanswm gwasanaethau cartrefi gofal		1082	159
Cyfanswm ymatebion		1,014	141
Oedran bras	< 10 oed	64 (6.3%)	8 (5.7%)
	Rhwng 10 a 20 oed	91 (9.0%)	11 (7.8%)
	Rhwng 21 a 30 oed	163 (16.1%)	12 (8.5%)
	Rhwng 31 a 50 oed	175 (17.3%)	19 (13.5%)
	>50 oed	475 (46.8%)	72 (51.1%)
	Ddim yn gwybod	45 (4.4%)	18 (12.8%)

### Ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau en-suite

Math o wasanaeth	Cartrefi Gofal i Oedolion – Hŷn	Cartrefi Plant
Cyfanswm yr ystafelloedd gwely	22,563	511
Cyfanswm ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau en-suite	12,755 (56.5%)	167 (32.7%)
Cyfanswm yr ystafelloedd gwely heb gyfleusterau en-suite	9,808 (43.5%)	344 (67.3%)

Wedi'u bwriadu i'w defnyddio fel ystafelloedd a rennir	839 (3.7%)	14 (2.7%)
Wedi'u bwriadu i'w defnyddio fel ystafelloedd sengl	21,724 (96.3)	497 (2.2%)

28. Mae'r data'n dangos, o'r rhai wnaeth ymateb, fod bron i hanner y mangreoedd cartrefi gofal dros 50 oed ac mai ychydig dros hanner y cartrefi gofal i bobl hŷn sydd ag ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau en-suite (ac oddeutu traean y cartrefi gofal i blant). Mae hyn yn dangos y byddai angen buddsoddiad ar gyfran fawr o'r stoc bresennol, pe bai'n cael ei werthu i ddarparwr newydd fel mangre wag, er mwyn ei godi i'r safon ofynnol.
29. Mae'r farchnad cartrefi gofal yng Nghymru yn fwy cyffredinol hefyd yn berthnasol o ran amcangyfrif y costau i ddarparwyr ar gyfer bodloni'r gofynion o dan Categori C.
30. Yn ôl adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, Y Farchnad Cartrefi Gofal yng Nghymru: [Mapio'r Sector](#), "O'r cartrefi gofal a gafodd eu hysbysebu ar werth yng Nghymru ym mis Mehefin 2015, ni chafodd unrhyw un ei ddisgrifio fel cartref o'r safon uchaf. Yn hytrach roedd y pwyslais naill ai ar lefelau deiliadaeth uchel neu botensial i'w ddatblygu fel y pwyntiau gwerthu." Mae hyn yn dangos nad yw'n debygol y bydd y mangreoedd sy'n cael eu gwerthu yn bodloni'r gofynion o dan yr opsiwn hwn o ran chyfleusterau en-suite gyda chawod hygyrch.
31. Fel y nodwyd uchod, ar un diwrnod ym mis Awst 2022, rhestrwyd chwech o'r 20 eiddo a hysbysebwyd ar werth gan Christie and Co, fel eiddo sydd â chyfleusterau en-suite eisoes ym mhob un neu yn rhai o'r ystafelloedd gwely. Rhestrwyd naw eiddo fel rhai dan reolaeth, ac felly wedi'u meddiannu. Roedd yn ymddangos nad oedd gan naw eiddo gyfleusterau en-suite ac nad oeddent ychwaith dan reolaeth, gan awgrymu eu bod yn debygol o ddod o dan Categori C.
32. Oherwydd yr amryw o fathau a meintiau o gartrefi gofal yng Nghymru, ni fyddai modd rhoi amcangyfrif ystyrllon o faint y byddai'n ei gostio i ddarparwr ddiweddar ei gyfleusterau yn unol â'r gofynion o dan Ran 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Bydd y swm yn amrywio yn dibynnu a oes gan ddarparwyr gyfleusterau en-suite sylfaenol ar hyn o bryd a bod angen gosod cawod yn unig, er enghraifft, neu a fyddai cynnwys en-suite yn golygu gwneud newidiadau mwy sylweddol i gynllun y cartref, a allai gael effaith ar gyfanswm yr ystafelloedd gwely. Mae'r math hwn o fuddsoddiad yn debygol o fod yn sylweddol, a gall unrhyw ostyngiad yn nifer yr ystafelloedd gwely effeithio'n negyddol ar incwm y darparwr. Pe bai angen gosod lifft yn yr adeilad hefyd, byddai'r buddsoddiad sydd ei angen yn sylweddol.
33. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, y bydd darparwyr sy'n gwneud y lefel hon o fuddsoddiad yn ychwanegu gwerth i'w cartrefi yn y tymor hir ac efallai y byddant yn gallu codi mwy am bob ystafell.

## Risgiau

34. Mae adroddiadau'n awgrymu ei bod yn heriol i ddarparwyr gael gafael ar fenthyciadau er mwyn gwneud y buddsoddiadau angenrheidiol i wella eiddo. Fel y nodwyd yn adroddiad Mapio'r Sector, "*yn enwedig ar gyfer darpar-reolwyr cartrefi bach gydag adnoddau cyfyngedig, mae'n anodd cael gafael ar gyllid gan fod angen blaendaliadau uchel (30- 40% ar gyfer newydd-ddyfodiaid), mae cost adeiladau newydd wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae'r elw o ffioedd yn cael ei ystyried yn isel.*" Gall cost buddsoddi yn fwy cyffredinol annog darparwyr i beidio â phrynu cartrefi gofal gwag, a fu dan berchnogaeth yn flaenorol.
35. Gallai hynny olygu bod cartrefi gofal sydd ar gau, ac sy'n dod o dan Categori C yn cael eu gwerthu at ddibenion eraill - naill ai at ddefnydd preswyl neu ar gyfer busnesau eraill - gan leihau capasiti cyffredinol gwelyau cartrefi gofal yng Nghymru.
36. Mae tystiolaeth anecdotaidd, a gafodd ei hadrodd i Arolygiaeth Gofal Cymru gan rai darparwyr cartrefi gofal, nad yw ystafelloedd ymolchi en-suite yn addas i rai preswylwyr sydd â dementia, a allai ddrysu rhwng drws yr ystafell wely a drws yr ystafell ymolchi. Nodwyd fod perygl y gallent achosi llifogydd yn yr ystafell pe bydden nhw'n cael eu gadael heb oruchwyliaeth neu pe na bai drws yr ystafell ymolchi wedi'i gloi.

## Manteision

37. Bydd diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn sicrhau eglurder a sicrwydd o ran gofynion Rhan 13, fel nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch y sefyllfa: y bwriedir i fangreoedd 'Categori C' gynnwys mangreoedd a sefydliadau perthnasol y mae person wedi'i gofrestru mewn cysylltiad â hwy o dan unrhyw Ddeddf berthnasol a oedd yn darparu'n flaenorol ar gyfer ar gyfer rheolaeth reoleiddiol a goruchwylio gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety. Bydd hyn yn sicrhau'r diben polisi gwreiddiol o sicrhau gwelliant yn ansawdd yr ystad adeiledig dros amser, heb ansefydlogi'r farchnad.
38. Bydd pobl sy'n byw mewn mangre 'Categori C' yn elwa o gael cyfleusterau en-suite yn eu hystafell (sy'n cynnwys basn golchi dwylo, toiled a chawod hygyrch), gofod awyr agored hygyrch, lifftiau pan fo'u hangen a meintiau ystafelloedd a mannau cymunedol sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol. Efallai na fydd y cyfleusterau hyn ar gael mewn cartrefi gofal a gafodd eu meddiannu ar adeg eu hailgofrestru o dan Ddeddf 2016. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig i bobl gael mynediad i'w hystafell ymolchi en-suite eu hunain i sicrhau eu bod yn gallu cadw eu preifatrwydd a'u hurddas. Mae cael gofod awyr agored hygyrch hefyd yn bwysig i wella mwynhad pobl o'u cartref a chefnogi eu lles.
39. Gall sicrhau cyfleusterau en-suite ar gyfer pob ystafell hefyd gefnogi cartrefi gofal gyda'u gweithdrefnau atal a rheoli heintiau, sy'n arbennig o bwysig yng nghyd-destun y pandemig. Fel y nodwyd yn y 'Canllawiau i Atal a

Rheoli COVID-19 o fewn Lleoliadau Preswyl a Gofal ochr yn ochr â Feirysau Anadlol eraill yn ystod Hydref / Gaeaf 2021-22' Iechyd Cyhoeddus Cymru:

*Dylai unrhyw breswlydd neu denant sydd â symptomau o glefyd anadlol - salwch tebyg i'r ffliw neu symptomau COVID-19, gael eu hynysu'n brydlon mewn un ystafell gydag ystafell ymolchi ar wahân os yw'n bosibl.*

40. Gall sicrhau bod gan drigolion fynediad i'w hystafell ymolchi eu hunain yn ystod achosion o glefyd heintus helpu i atal lledaeniad y feirws a gall arbed amser i staff o ran gorfod glanhau ystafelloedd ymolchi cymunedol rhwng pob defnydd.

### **Casgliad**

41. Ar ôl gwerthuso costau, manteision a risgiau pob opsiwn, opsiwn dau yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Er ein bod yn cydnabod y gallai'r buddsoddiad sydd ei angen i fodloni'r safonau uwch sy'n ofynnol o eiddo Categori C fod yn rhwystr i rai darpar ddarparwyr cartrefi gofal, nid ydym yn ystyried bod y gofynion o dan Ran 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn foethusrwydd, ond yn hytrach yn ofyniad sylfaenol ar gyfer cartrefi gofal modern.
42. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig i egluro'r diffiniad o Ran 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig i adlewyrchu'r bwriad polisi gwreiddiol o sicrhau bod gwelliannau yn parhau i gael eu gwneud i ansawdd yr ystad adeiledig, heb ansefydlogi'r farchnad.

## Asesu'r Gystadleuaeth

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
<b>Cwestiwn</b>	<b>Ateb cadarnhaol neu negyddol</b>
<b>C1:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C2:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C3:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a ydy'r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn cynrychioli o leiaf 50% o'r farchnad?	Nac ydy
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill?	Na fyddai
<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Nac ydy
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?	Byddai
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?	Na fyddai
<b>C8:</b> A oes newidiadau technolegol mawr yn digwydd o fewn y sector?	Nac oes
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch?	Na fyddai

Mae'r prawf hidlo yn dangos nad yw'n debygol y bydd y rheoliad yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. O ganlyniad, ni chynhaliwyd asesiad manwl.

Nid ydym o'r farn bod angen cynnal asesiad o'r gystadleuaeth ar gyfer y Rheoliadau hyn gan na fyddant yn effeithio ar y sector busnes mewn unrhyw ffordd arwyddocaol.